

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer**

**13/7/2015**

**Presennol:** Eleri Jones (Cadeirydd), Emyr Jones, (Is Gadeirydd), John Morris, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Ni chymerodd Tyly Roberts ran yn y drafodaeth ar addysg.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 11, 2015.
5. Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.
6. Materion y Clerc:
  - I. Derbyniwyd ymateb i sylwadau'r Cyngor am gau ffordd Rhosygwaliau ar gyfer gwaith BT. Mae BT yn ymgymwrwr statudol gyda phwerau i wneud gwaith statudol gan gynnwys rheoli traffig. Roedd y trefniadau statudol wedi eu gwneud a rhybudd digonol wedi ei roi mewn manau cyhoeddus yn yr ardal.
  - II. Coed ansefydlog yn Y Glyn: mae Archwiliwr y Priffyrdd a'r Cynghorydd Alan Evans wedi trafod y mater gyda'r perchennog (Cyfoeth Naturiol Cymru). Dywedodd y Cynghorydd Sir y bydd yn codi'r mater eto.
  - III. Binau'r Wenallt: mae'r Cyngor Sir wedi gosod plinth pwrpasol ar gyfer y ffermydd sydd â hawl i ddefnyddio'r rhain.
  - IV. Uwchraddio'r ffordd wrth Fryntirion: derbyniwyd gwybodaeth nad oes cyllid ar gael i wneud y gwaith hwn.
  - V. Her Gwynedd: derbyniwyd adroddiad o gyfarfod mis mai; mae toriadau yn rhwym o ddigwydd ond bydd gwahoddiad yn yr Hydref i fynegi barn ar flaenoriaethau'r ardal.
7. Mae'r broses o wahodd etholiadau a chynnig enwau ar gyfer cyfethol wedi digwydd yn unol â'r drefn. Cytunwyd i wahodd Mr Geraint Roberts i fod yn aelod cyfetholedig o'r Cyngor.
8. Diolchwyd yn gynnes iawn i Mrs Linda Morris am ei gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iawn iddi ar ei hymddiswyddiad o'r Cyngor.
9. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd yn bennaf am bryder yng nghylch statws Eglwysig yr ysgol arfaethedig. Cytunwyd i anfon llythyr cryf at yr Awdurdod yn mynegi gwrthwynebiad i'r statws eglwysig.

**10. Materion ariannol**

Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.  
Cytunwyd i dalu anfoneb flynyddol Partneriaeth Penllyn.

Cymeradwywyd yr wybodaeth ariannol a anfonwyd at yr Archwilwyr.

Cytunodd y Clerc i dderbyn gohebiaeth am bensiynau.

Newidiwyd mandad y banc i adlewyrchu'r newid mewn swyddogion.

11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan W D Williams a'r Clerc.

12. **Gohebiaeth:**

1). **Parc Cenedlaethol Eryri:**

- Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatáu diwygiad ansylweddol ar gyfer newid edrychiad y tŷ tyrbin ger Pant yr Onnen.
- Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i godi penty newydd ym Maeshir, Rhosygwaliau
- Derbyniwyd gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfod Parc Cenedlaethol Eryri.

2) **Gwynedd:**

- Derbyniwyd taflen gwybodaeth i deuluoedd.
- Ystyriwyd ymgynghoriad ar ail drefnu Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Cytunwyd i anfon i gefnogi'r gwasanaeth yn Y Bala a'r Llyfrgell deithiol gan awgrymu y dylid hysbysebu'r gwasanaeth yn well a defnyddio'r fan lyfrgell fel pwynt cyswllt rhwng Cyngor Gwynedd a thrigolion cefn gwlad.
- Derbyniwyd gwybodaeth am ail-strwythuro'r gwasanaeth cofrestru a chytunwyd i awgrymu y dylid parhau gyda'r gwasanaeth yn Y Bala gan ddefnyddio Canolfan yr Henblas.
- Derbyniwyd adroddiad Llwyddo yng Ngwynedd

3). **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am gofrestru buddiannau ac am dâl teithio i Gynghorwyr.

4) **Eraill:**

- Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad gan Eisteddfod Gylch Penllyn
- Derbyniwyd llythyr ar waith i'w wneud ar yr Eglwys; cytunwyd i'w ateb gan ofyn iddynt wirio parthed yr hawl i dyllu oddi mewn i fynwent.
- Ystyriwyd hyfforddiant ar Gynllunio ym Mhlas Tanybwllch 3/8/15 a chytunwyd i anfon gan ddweud fod wythnos yr Eisteddfod yn adeg anghyfleus iawn i gynnal hyfforddiant.
- Derbyniwyd Adroddiad yr Ombwdsman.
- Derbyniwyd llythyr yn gwahodd sylwadau gan Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

Cadarnhawyd dyddiad y Cyfarfod nesaf: 14/9/15 Amser gorffen: 9.30pm